

**Tomorrow's  
Engineers**



# Gwneud gwahaniaeth i'r byd



**Llwybrau galwedigaethol a  
phrentisiaeth i beirianeg**

# Pam dewis peirianneg?

## Fedwch chi weld eich hun yn gweithio gydag eraill i:

- ⇒ Warchod yr amgylchedd?
- ⇒ Datblygu offer chwaraeon arloesol?
- ⇒ Gwella amodau byw pobl ym mhedwar ban byd?
- ⇒ Gweithgynhyrchu'r genhedlaeth nesaf o ffonau deallus a llechi?

Os felly, mae'n bosib taw peirianneg yw'r yrfa i chi.

## Pum rheswm i ddewis peirianneg

- 1) Mae galw mawr am beirianwyr ac maen nhw'n cael eu talu'n dda
- 2) Mae peirianneg yn rhan o bron bopeth y gallwch chi feddwl amdano
- 3) Fel meddygon a chyfreithwyr, mae peirianwyr sydd wedi'u cofrestru'n broffesiynol yn uchel eu parch
- 4) Mae peirianwyr yn greadigol, yn ymarferol ac yn flaengar
- 5) Mae peirianwyr yn gwneud gwahaniaeth i'r byd

Mae peirianneg ym mhob man – o'r dyfeisiau a ddefnyddiwn a'r adeiladau rydyn ni'n byw ynddyn nhw i'r pŵer a ddefnyddiwn a'r bwyd rydyn ni'n ei fwyta. Mae peirianwyr yn defnyddio'u sgiliau i wella dyluniad, perfformiad ac effeithlonrwydd bron popeth rydyn ni'n ei ddefnyddio heddiw ac i newid y ffordd rydyn ni'n gwneud pethau yn y dyfodol.



## Wyddoch chi?

Gallwch gofrestru'n broffesiynol fel Technegydd Peirianneg (EngTech), Peiriannydd TGCh (ICTech), Peiriannydd Corfforedig (IEng) neu Beiriannydd Siartredig (CEng), gyda llythrennau ar ôl eich enw, sy'n cael eu cydnabod ar draws y byd.



# Beth yw peiriannydd?

Rhywun sy'n gweithio gydag eraill i **ddylunio**, **creu** neu **wella** cynnyrch, ffordd o wneud rhywbeth, neu ran o'n hamgylchedd. Mae peirianwyr yn cael eu hyfforddi mewn ffordd ymarferol, gan ddefnyddio mathemateg a gwyddoniaeth i ddatrys problemau mewn maes penodol o beirianneg. Gallant gymryd llwybr **galwedigaethol**, **prentisiaeth** neu **academaidd** i beirianneg, neu gyfuniad ohonynt. Mae **technegwyr peirianneg** yn aml yn gweithio gyda pheirianwyr i ddatrys problemau peiriannyddol ymarferol ac maen nhw'n gael eu hyfforddi drwy lwybr galwedigaethol neu brentisiaeth gan amlaf.

- ⇒ Mae llawer o gyfleoedd i bobl sydd eisiau ymuno â'r maes peirianneg drwy lwybrau ymarferol sy'n seiliedig ar waith. Mae llawer o lwybrau eraill i'r maes, ac mae esboniad ohonynt nhw ar wefan Tomorrow's Engineers:

[www.tomorrowsengineers.org.uk](http://www.tomorrowsengineers.org.uk)

- ⇒ Cymerwch gip ar y llyfryn Peirianneg yn y Brifysgol: [www.tomorrowsengineers.org.uk/university](http://www.tomorrowsengineers.org.uk/university)

**Pa bynnag lwybr a ddewiswch, byddwch yn cael mwynhad ac yn cael eich herio a'ch ysgogi, gyda sgiliau trosglwyddadwy gwerthfawr a fydd yn eich paratoi at y dyfodol.**

Mae **prentisiaethau'n** cyfuno hyfforddiant yn y swydd gydag astudio am gymwysterau galwedigaethol, neu hyd yn oed radd yn y brifysgol.

**Cymwysterau galwedigaethol/Lefelau technegol?** Cymwysterau cysylltiedig â gwaith yw'r rhain, a gellir eu hastudio'n llawn amser yn yr ysgol neu'r coleg (fel llwybr at waith neu'r brifysgol) neu'n rhan-amser, yn ystod prentisiaeth. Mae cymwysterau galwedigaethol / lefel T yn cynnwys: **Diploma BTEC, City & Guilds, NVQ a SVQ EAL, HNC, HND** ac eraill.

## Peiriannydd

"Y peth gorau am Brentisiaeth yw gallu canfod beth yw'ch cryfderau cyn gwneud penderfyniad ffurfiol am yrfa. Fe fues i'n gweithio mewn wyth maes amrywiol yn dysgu llawer o sgiliau gwahanol cyn gwneud penderfyniad terfynol. Drwy fy Mhrentisiaeth, cynyddais fy sgiliau arwain, rheoli a chyfathrebu a magu llawer o hyder. Rwy'n defnyddio'r priodweddau hyn yn fy swydd bresennol."

### Jenny Westworth, 25

Peiriannydd Gweithgynhyrchu, BAE Systems

Wedi cwblhau Uwch Brentisiaeth Peirianneg Awyrafod

Yn astudio am radd mewn Peirianneg Systemau Gweithgynhyrchu ac yn gweithio tuag at ddod yn Beiriannydd Siartredig (CEng).



# Diwydiannau peirianeg ac enghreifftiau o swyddi

## Awyrofod

Dylunio a phrofi systemau hedfan, datblygu technoleg amddiffyn arloesol a galluogi teithio yn y gofod.

- Ffithwr Gweithgynhyrchu Awyrofod
- Peiriannydd Awyrofod/Mecanyddol



## Moduro

Creu'r genhedlaeth nesaf o gerbydau, wedi'u pweru mewn ffyrdd newydd ac effeithlon.

- Peiriannydd Gweithgynhyrchu
- Technegydd Dylunio a Datblygu Cynhyrchion



## Amgylchedd Adeiledig

Aeiladu adeiladau newydd gyda'r systemau pŵer a chyfathrebu sydd eu hangen er mwyn i bobl allu byw ynddyn nhw.

- Technegydd Adeiladu
- Peiriannydd Sifil/Gwasanaethau Adeiladau



## Diwydiannau Digidol

Ymateb i broblemau seibr-ddiogelwch, datblygu apiau, gosod meddalwedd newydd.

- Dadansoddwr Tresmasu Seiber
- Peiriannydd Rhwydwaith



## Electrodechnegol

Gosod a chynnal a chadw systemau electrodechnegol a ddefnyddir wrth gynhyrchu pŵer ac ar gyfer adeiladau a seilwaith (e.e. cledrau).

- Trydanwr Gosod
- Peiriannydd Trydanol



## Cyfleustodau Ynni

Helpu i ddod â phŵer i gartrefi, swyddfeydd, ysbytai ac ysgolion a datblygu ffyrdd o gynhyrchu ynni cynaliadwy.

- Peiriannydd Ynni Adnewyddadwy
- Technegydd Prosesau Dŵr



## Bwyd a Diod

Cynnal, profi a datblygu'r peiriannau a'r cyfarpar a ddefnyddir i gynhyrchu bwyd, pecynnu a dosbarthu bwyd a diod.

- Peiriannydd Cynnal a Chadw Bwyd a Diod
- Peiriannydd Electroneg/Gweithgynhyrchu



## Peirianeg Tir

Gwella ac atgyweirio cyfarpar mecanyddol a ddefnyddir mewn amaethyddiaeth ac adeiladu, e.e. chwistrellwyr, tractors a pheiriannau cloddio bach.

- Technegydd Peirianeg Tir
- Peiriannydd Amaethyddol



## Gwyddorau Bywyd a Diwydiannol

Gweithio mewn timau cynhyrchu i gydosod, cynnal a chadw ac atgyweirio'r cyfarpar a ddefnyddir mewn gofal iechyd, gan brofi cemegion a defnyddio prosesau newydd.

- Technegydd Gweithgynhyrchu Gwyddoniaeth
- Peiriannydd Cemegol



## Dylunio Rheilffyrdd

Trawsnewid y rhwydwaith rheilffyrdd trwy ddylunio, datblygu a phrofi cledrau, signalau, trydaneiddio, telathrebu a llinellau uwchben.

- Technegydd Dylunio Peirianeg Rheilffordd
- Peiriannydd Trydanol/Mecanyddol/Sifil



Dyma rai o safonau prentisiaeth newydd y Llywodraeth sydd wedi'u datblygu gan gwmnïau peirianeg a chyrrff profesiynol fel rhan o'r fenter Trailblazer. Am restr lawn o safonau prentisiaethau, ewch i [www.apprenticeships.org.uk/standards](http://www.apprenticeships.org.uk/standards)

# Beth yw prentisiaeth?

Hanfod prentisiaethau yw ennill arian wrth i chi ddysgu a buddsoddi yn eich dyfodol. Mae prentisiaid yn gweithio tuag at gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol – yn y coleg gan amlaf, ond weithiau drwy E-ddysgu a gweminarau – ac yn treulio gweddill eu hamser yn datblygu sgiliau technegol a gwybodaeth 'yn y swydd' gyda chyflogwr yn y diwydiant o'u dewis.

Ar ôl i chi gwblhau'ch prentisiaeth, byddwch yn aros gyda'ch cyflogwr yn ôl pob tebyg ac yn symud ymlaen i fod yn dechnegydd neu beiriannydd proffesiynol. Mae'r sgiliau a chymwysterau rydych chi'n eu hennill yn ystod prentisiaeth yn drosglwyddadwy a gallant eich helpu gydol eich gyrfa.

Byddwch yn cael cymorth gydol eich prentisiaeth ac yn cael eich annog i fynd i'r afael â thasgau amrywiol a dysgu sgiliau newydd, gan roi cyfle i chi brofi'ch hun i'ch cyflogwr. Bydd eich cyflogwr wedi treulio amser ac arian yn eich hyfforddi, felly bydd am eich cadw chi.

## Prentis Peirianeg

"Fel prentis mae angen i chi fod yn frwdfrydig. Rydych chi'n dysgu llawer o bethau yn ymarferol na fydddech yn eu dysgu yn y brifysgol o bosib. Mae bod yn brentis yn dod â llawer o fanteision, er enghraifft, rydych chi'n gallu dechrau ennill arian, ac mae'ch cyflogwr yn talu am eich addysg, sy'n wych. Rydych chi hefyd yn dysgu'r union sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y swydd rydych chi'n hyfforddi ar ei chyfer, ac mae hynny'n eich rhoi chi mewn sefyllfa wych."

**Jennie Treen, 22**

Prentis Peiriannydd Cynnal a Chadw Traffig, Transport for London  
Yn gweithio tuag at BTEC Lefel 3 mewn Peirianeg Drydanol ac Electronig



## Am faint mae prentisiaethau'n para?

- Mae hynny'n dibynnu ar y lefel, y diwydiant a'r swydd.
- Mae Prentisiaethau Uwch/Prentisiaethau Proffesiynol neu Radd yn cymryd pedair i chwe blynedd i'w cwblhau fel rheol.

## Oes gwahanol lefelau o brentisiaethau?

**Rhaid i chi fod yn 16 oed o leiaf i wneud cais am brentisiaeth.**

Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae prentisiaethau ar gael ar dair lefel:

- **Prentisiaethau Canolradd (yr un lefel â TGAU/Graddau Safonol):** Lefel 2
- **Prentisiaethau (yr un lefel â lefel A/IB/SB/Highers):** Lefel 3
- **Prentisiaethau Uwch a Gradd (yr un lefel â HND/gradd):** Lefelau 4+

Mae Prentisiaethau Uwch a Gradd yn aml yn cynnwys Gradd Sylfaen neu radd Baglor (BEng neu BSc).

Yn yr Alban, yr enw ar brentisiaethau yw Modern Apprenticeships, ac rydych chi'n hyfforddi yn y swydd ac yn astudio am Scottish Vocational Qualifications (SVQs) o SCQF 5 i fyny. Mae Prentisiaethau Technegol (SCQF 8-9) a Phrentisiaethau Proffesiynol (SCQF 10-12) ar gael hefyd.



## Wyddoch chi?

Mae chwarter miliwn o weithleoedd yn y DU yn cynnig prentisiaethau erbyn hyn; cynnydd o 50% yn y pum mlynedd diwethaf.

(EngineeringUK 2017: The State of Engineering).

## Faint mae prentis yn ennill?

Mae cyflogwyr peirianeg yn tueddu i dalu prentisiaid dipyn mwy na'r isafswm cyflog cenedlaethol ar gyfer prentisiaid. Edrychwch ar y swyddi gwag cyfredol ar gyfer prentisiaid i gael syniad o'r math o enillion sy'n gyffredin yn y maes sydd o ddiddordeb i chi [www.tomorrowsengineers.org.uk/apprenticeships](http://www.tomorrowsengineers.org.uk/apprenticeships)

Mae'n werth cofio bod eich cyflogwr yn buddsoddi llawer o arian i ddatblygu'ch gyrfa drwy ariannu'ch hyfforddiant ac addysg. Pan fyddwch chi'n cymharu hyn â chost y brifysgol, gallwch weld pam mae llawer o bobl yn ystyried dilyn prentisiaeth.



## Pa gymwystrau mae prentis yn eu hennill?

Mae prentisiaethau'n cynnwys **cymwystrau seiliedig ar waith** (e.e. NVQ ac SVQ), Cymwystrau Technegol (e.e. Diploma), **mathemateg, Saesneg, TGCh** a modiwlau dysgu eraill. Y term cyffredinol ar gyfer y cymwystrau hyn yw cymwystrau **galwedigaethol** neu **Lefelau Tech** (lefelau T), sy'n cael eu hegluro'n fanylach drosodd.

## I le fydd prentisiaeth yn fy arwain?

Ar ôl i chi gwblhau'ch prentisiaeth, gallech benderfynu:

- ⇒ aros gyda'ch cyflogwr – neu yn y diwydiant – fel technegydd peirianeg neu beiriannydd (yn dibynnu ar lefel y brentisiaeth a wnaethoch chi).
- ⇒ parhau â'ch datblygiad proffesiynol. Er enghraifft, os ydych chi newydd gwblhau Prentisiaeth (Uwch) (Lefel 3), gallech fynd ymlaen i wneud Prentisiaeth Uwch/Broffesiynol, a allai olygu astudio am radd.
- ⇒ gweithio tuag at gyflawni cofrestriad proffesiynol fel **Technegydd Peirianeg** neu **TGCh, Peiriannydd Corfforedig** neu **Beiriannydd Corfforedig**.
- ⇒ neu bob un o'r uchod!

Gall technegwyr a pheirianwyr cofrestredig ddefnyddio'r llythrennau EngTech, ICTech, IEng neu CEng, sy'n cael eu cydnabod yn fyd-eang, ar ôl eu henw. Mae cofrestriad proffesiynol yn gallu gwella'ch cyfleoedd gyrfa a'ch rhagolygon cyflog.

## Chwiliwch am y logos canlynol

Gallwch weld a yw'ch prentisiaeth neu gymwystrau wedi'u cymeradwyo yn [www.engc.org.uk/techdb](http://www.engc.org.uk/techdb)



## Sut mae gwneud cais am brentisiaeth?

Mae gwneud cais am brentisiaeth yn debyg iawn i wneud cais am swydd. Mae'n bwysig dechrau drwy restru'ch diddordebau a gofyn i bobl sy'n eich adnabod yn dda i'ch helpu i nodi'ch cryfderau. Mae ffactorau pwysig i'w hystyried wrth ymchwilio i brentisiaethau yn cynnwys lleoliad, dulliau dysgu, lefel cyflog, cymwystrau a ddyfarnir a chyfleoedd i gamu ymlaen. I wybod mwy ewch i [www.tomorrowsengineers.org.uk/apprenticeships](http://www.tomorrowsengineers.org.uk/apprenticeships)

## Chwilio am brentisiaethau

Os ydych chi'n byw yn yr Alban:  
[www.gyrfacymru.com](http://www.gyrfacymru.com)

Os ydych chi'n byw yng Nghymru:  
[www.getingofar.gov.uk](http://www.getingofar.gov.uk)

Os ydych chi'n byw yn Lloegr:  
[www.myworldofwork.co.uk/getting-job/apprenticeships](http://www.myworldofwork.co.uk/getting-job/apprenticeships)

Os ydych chi'n byw yng Ngogledd Iwerddon:  
[www.nidirect.gov.uk/campaigns/apprenticeships](http://www.nidirect.gov.uk/campaigns/apprenticeships)

Gallwch hefyd chwilio am brentisiaethau peirianeg yn [www.tomorrowsengineers.org.uk/apprenticeships](http://www.tomorrowsengineers.org.uk/apprenticeships)



## Wyddoch chi?

- ⇒ Weithiau gallwch chi wneud cais am brentisiaeth yn uniongyrchol i gyflogwyr, naill ai ar eu gwefannau neu drwy gysylltiadau personol.
- ⇒ Yn yr un modd ag ymgeisio am swydd neu le yn y brifysgol, gall gymryd sawl ymgais cyn i chi gyrraedd y rhestr fer ar gyfer cyfweiliad. Peidiwch â bod ofn gofyn am adborth i'ch helpu i wella.
- ⇒ Yn y cyfamser, gallwch wneud cais am gwrs galwedigaethol llawn amser mewn coleg lleol ac yna symud ymlaen i brentisiaeth naill ai yn ystod neu ar ôl eich cwrs.
- ⇒ Os yw'ch bryd ar fynd i'r brifysgol, mae'n werth cofio bod Prentisiaethau Uwch a Gradd yn aml yn cynnwys graddau.

## Cyflogwr Peirianeg

"Mae Balfour Beatty yn wirioneddol gwerthfawrogi ei brentisiaid - o beirianeg sifil, fecanyddol a rheilffordd i weithrediadau cynnal a chadw prifffyrdd ac adeiladu - rydym ni'n rhoi llwyfan i'n prentisiaid ddatblygu eu sgiliau technegol, sgiliau dysgu personol, a gwybodaeth am y diwydiant. Rydym ni'n talu cyflog cystadleuol i'n prentisiaid ac mae llawer ohonyn nhw'n mynd ymlaen i astudio graddau rhan-amser gyda'r cwmni a chyflawni cymwystrau uwch ac ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb."

Kelly Anderson, Cyfarwyddwr Adnoddau a Datblygu, Balfour Beatty

## Hyfforddeiaethau

Mae hyfforddeiaethau ar gyfer pobl ifanc dros 16 oed sydd ddim yn barod i ddechrau prentisiaeth. Maen nhw'n para rhwng chwe wythnos a chwe mis ac yn cynnig hyfforddiant paratoi at waith, mathemateg, Saesneg a phrofiad gwaith gyda chyflogwr.

Mae mwy o wybodaeth am sut i chwilio am hyfforddiaethau a gwneud cais amdanynt ar gael yn [www.gov.uk/find-traineeship](http://www.gov.uk/find-traineeship)



# Cymwysterau galwedigaethol

## ⇒ Beth yw cymwysterau galwedigaethol?

Cymwysterau cysylltiedig â gwaith sy'n eich paratoi at yrfa yw cymwysterau galwedigaethol, sydd hefyd yn cael eu galw'n Lefel Tech (lefel T). Mae cymwysterau galwedigaethol yn cysylltu'ch dysgu â phroblemau go iawn. Maen nhw'n cael sêl bendith cyflogwyr, sy'n helpu i ddylunio'r cymwysterau, a'r profesiwn peirianeg. Mae cymwysterau galwedigaethol yn cynnwys rhai BTEC, NVQ ac SVQ EAL a City & Guilds.

Mae rhai yn dewis gwneud cyfuniad o gymwysterau academaidd a galwedigaethol yn yr ysgol neu'r coleg chweched dosbarth. Mae eraill yn dewis astudio cymwysterau galwedigaethol llawn amser mewn coleg addysg bellach (AB) neu Goleg Technegol Prifysgol (UTC).



## ⇒ Pam dewis llwybrau galwedigaethol i beirianeg?

Os ydych chi'n mwynhau dysgu mewn ffordd ymarferol a bod gennych chi syniad o'r math o swydd hoffech chi, neu'r diwydiant neu sector yr hoffech weithio ynddo, mae'n bosib mai cymhwyster galwedigaethol – yn y coleg neu fel rhan o'ch prentisiaeth – yw'r llwybr i chi.

## Beth yw Coleg AB?

Mae colegau addysg bellach yn cynnig amrywiaeth o gymwysterau, yn cynnwys lefel A, Highers, cymwysterau galwedigaethol a chyrtsiau cysylltiedig â gwaith arbenigol. Os ydych chi'n gwneud prentisiaeth, byddwch chi'n gwneud y rhan astudio o'r brentisiaeth mewn coleg AB. Gallwch astudio am brentisiaeth drwy ddarparwr dysgu hefyd.

## Beth yw UTC?

Mae Colegau Technegol Prifysgol ar gyfer pobl ifanc 14-18 oed. Maen nhw'n cyfuno dysgu academaidd, technegol ac ymarferol ac mae ganddyn nhw gysylltiadau â chyflogwyr lleol a phrifysgol nawdd. Maen nhw'n addas i bobl ifanc sydd eisieu datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i weithio yn y diwydiannau gwyddoniaeth, peirianeg, gweithgynhyrchu neu dechnoleg.

## ⇒ I le fydd cymwysterau galwedigaethol yn fy arwain?

Waeth a ydych chi'n dewis llwybr galwedigaethol, llwybr academaidd, neu gyfuniad o'r ddau, yr un fydd eich opsiynau at y dyfodol. Gallech ymgeisio am le yn y brifysgol, prentisiaeth, neu mewn rhai achosion, swydd llawn amser.

# Cymwysterau galwedigaethol mewn peirianeg a phynciau cysylltiedig

## Diploma yn cynnwys:

- Cynnal a Chadw Awyrennau
- Peirianeg Awyrenegol
- Saerniaeth ar Fainc
- Gwaith Gofaint a Gwaith Metel
- Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig
- Peirianeg Sifil
- Dylunio a Thechnoleg Peiranyddol
- Cynaliadwyedd Amgylcheddol
- Technoleg Tir
- Peirianeg Sain Broffesiynol
- Systemau Oeri, Aer-dymheru a Phwmpio Gwres
- Datblygu Meddalwedd
- Technoleg Cerbydau

## NVQ/SVQ yn cynnwys:

- Peirianeg Fodurol
- Gwaith Plymwr a Gwresogi Domestig
- Peirianeg Drydanol ac Electronig
- Peirianeg Forol
- Prosesu a Gorffen Deunyddiau
- Peirianeg Gweithgynhyrchu Mecanyddol
- Weldio

## HNC ac HND

Mae Tystysgrifau Cenedlaethol Uwch (HNC) a Diplomau Cenedlaethol Uwch (HND) yn gymwysterau galwedigaethol lefel 4 a 5 sy'n cael eu hastudio gan amlaf mewn coleg addysg bellach neu uwch neu tra'ch bod yn gweithio. Gallwch eu cymryd fel rhan o brentisiaeth hefyd. Mae HNC ac HND ar gael mewn gwahanol feysydd peirianeg, yn cynnwys:

- Sifil
- Electronig/Trydanol
- Mecanyddol



Dyma rai o'r nifer o gymwysterau galwedigaethol sydd ar gael. I weld beth sydd gan yr ysgolion, colegau AB ac UTC yn eich ardal i'w gynnig, ewch i [www.ucasprogress.com/search](http://www.ucasprogress.com/search) neu chwiliwch ar wefannau'r darparwyr addysg eu hunain.



# Dewis eich opsiynau

## Yn 14

Os ydych chi am gadw'ch opsiynau'n agor ar gyfer peirianeg, yn cynnwys prentisiaethau peirianeg, pan fyddwch chi'n 14 oed gofalwch ganolbwyntio ar fathemateg a gwyddoiaeth – yn enwedig ffiseg – yn eich TGAU. Mae angen i beirianwyr allu datrys problemau mewn modd creadigol a meddu ar sgiliau technegol da a gall cyfrifiadura fod yn ddefnyddiol hefyd.

Yn 14 gallech ddewis mynd i Goleg Technegol Prifysgol neu Studio School. Mae mwy o wybodaeth yn [www.utcolleges.org](http://www.utcolleges.org) and [www.studioschoolstrust.org](http://www.studioschoolstrust.org)

## Yn 18

Mae'ch opsiynau yn 18 yn cynnwys:

- Gwneud cais am Brentisiaeth Uwch (Lefel 4 a 5 fel rheol) neu Brentisiaeth Gradd (Lefel 6 a 7), a allai gynnwys gradd neu radd meistwr wrth ddysgu yn y swydd.
- Mynd i'r brifysgol yn llawn amser i astudio gradd sylfaen, gradd baglor neu radd meistwr (MEng/MSc) mewn peirianeg neu bwnc cysylltiedig.
- Cyflogaeth lawn amser ac astudio tra'n gweithio.

## Prentis Peirianeg

"Mae peirianwyr a thechnegwyr yn gwneud gwahaniaeth gan eu bod nhw'n adeiladu breuddwydion! Rydw i wedi ymddiddori mewn adeiladu ers o'n i'n ddech, tua'r adeg y cafodd Canary Wharf ei adeiladu. Roeddwn i'n gallu gweld y cyfan o'r tŷ. Rydw i'n mwynhau gweld sut mae prosiectau'n dod at ei gilydd, a gwyllo pobl yn eu defnyddio am flynyddoedd lawer."

**Zavier Peart-Lawrence, 21**

Prentis Peirianeg Sifil – K10 Apprenticeships

Gweithio i Balfour Beatty ar y prosiect i drawsnewid y Parc Olympaidd



## Yn 16

Os oes gennych chi 5 TGAU 9-4 (A\* -C) neu gyfwerth, yn enwedig mathemateg, gwyddoniaeth – yn enwedig ffiseg – a Saesneg, gallwch chi:

- Gymryd Lefel Tech (Lefel T) mewn peirianeg neu bwnc cysylltiedig. Gellir cyfuno'r rhain â lefel A/Highers neu gyfwerth.
- Gwneud cais am Uwch Brentisiaeth lle'r ydych chi'n debygol o astudio am Lefel Tech wrth ddatblygu'ch sgiliau peirianyddol drwy waith.
- Cymryd Diploma/lefel A/Highers/IB/SB, mewn mathemateg, ffiseg neu beirianeg os ydych chi'n ystyried mynd ymlaen i astudio gradd mewn peirianeg.
- Gyda graddau ychydig yn is, gallwch ymgeisio am hyfforddeiaeth, cymhwyster Lefel 2 neu Brentisiaeth Ganolradd.

Yn 16, gallwch ddewis mynychu coleg AB, chweched dosbarth neu Goleg Technegol Prifysgol (UTC).

# Beth nesaf?

## Cyflogaeth, y brifysgol a chofrestru proffesiynol

### Cyflogaeth

Ar ddiwedd eich prentisiaeth, dylech fod yn barod am swydd lawn amser fel technegydd neu beiriannydd yn y maes o'ch dewis.

Yn ystod eich hyfforddiant, dylech ddod i adnabod y diwydiant, y cwmnïau sy'n rhan ohono a phwy sy'n debygol o fod angen gweithwyr.

### Prifysgol

Mewn llawer o brentisiaethau byddwch yn gweithio tuag at gymhwyster addysg uwch, sy'n golygu y gallech chi gael eich talu am fynd i'r brifysgol!

Dyma'r cymwysterau addysg uwch sydd ar gael: HNC, HND, Gradd Sylfaen; Baglor Gwyddoniaeth (BSc) neu Faglor Peirianeg (BEng) a Meistr Peirianeg (MEng).



Er bod rhai prifysgolion yn cynnig gradd mewn peirianeg gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o gyrsgiau mewn disgyblaethau peirianeg priodol fel peirianeg sifil, drydanol neu fecanyddol i roi'r wybodaeth arbenigol sy'n berthnasol i'r maes hwnnw.

### Cyrsiau Achrededig

Chwiliwch am y logo canlynol, sy'n dangos bod gradd wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor Peirianeg:



Mae achrediad yn seiliedig ar ansawdd y cwrs ac a yw'n darparu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cofrestriad proffesiynol fel:

- Peiriannydd Corfforedig (IEng)
- Peiriannydd Siartredig (CEng)

I ddarganfod mwy am raddau peirianeg, rhowch gip ar lyfryn Engineering at University ar wefan Tomorrow's Engineers [www.tomorrowsengineers.org.uk/university](http://www.tomorrowsengineers.org.uk/university)

# Sefydliadau Peirianeg Proffesiynol a chofrestru proffesiynol

Tra'ch bod yn brentis neu'n astudio, gallwch ddod yn aelod prentis neu'n aelod myfyriwr o Sefydliad Peirianeg Proffesiynol sy'n ymwneud â'ch maes. Mae'r sefydliadau hyn yn cynnig cyngor ar yrfaeodd, cylchlythyron, cyhoeddiadau technegol ac adnoddau astudio eraill, ac mewn rhai achosion, mentor. Mae llawer yn darparu mynediad at rwydweithiau a digwyddiadau lle gallech gyfarfod â darpar gyflogwyr.

Aelodaeth o Sefydliad Peirianeg Proffesiynol yw'r cam cyntaf hefyd at gofrestru'n broffesiynol fel Technegydd Peirianeg (EngTech), Technegydd TGCh (ICTech), Peiriannydd Corfforedig (IEng) neu Beiriannydd Siartredig (CEng).

Caiff cofrestriad proffesiynol ei gydnabod ym mhedwar ban byd. Mae'r llythrennau ar ôl eich enw yn arwydd o wybodaeth, sgiliau, arbenigedd, cymhwysedd wedi'u datblygu drwy brofiad yn y gweithle ac ymroddiad i'r yrfa o'ch dewis.

## Cyflogwr Peirianeg

"Mae prentisiaid yn rhan hollbwysig o'n cronfa dalent. Wrth weithio i gymhwyso fel Technegwyr Peirianeg (EngTech) proffesiynol, maen nhw'n helpu i sicrhau bod ein rhydweithiau a'n systemau yn parhau i ddarparu ynni cynaliadwy diogel i gartrefi a busnesau."

**Tony Moloney**, Pennaeth Addysg a Sgiliau, Grid Cenedlaethol


## Prentis Peirianeg

"Dim ond un rhan o'n hyfforddiant parhaus yw'r coleg, yn rhoi sail i ni mewn peirianeg drydanol ac electronig. Rydyn ni hefyd yn cael cyrsiau dylunio arbenigol a hyfforddiant ychwanegol gan uwch staff, lle mae gofyn i ni ddod o hyd i atebion dylunio i faterion sydd wedi codi yn y gorffennol. Mae hyn yn helpu i fy mharatoi ar gyfer agweddau mwy heriol signalau, ac rydw i'n edrych ymlaen at fynd i'r afael â nhw."

**Arjun Chauhan, 27**

Prentis Peiriannydd Dylunio Signalau, Siemens Rail & Automotive

Yn gweithio tuag at gofrestriad EngTech



## Dolenni Defnyddiol

[www.tomorrowsengineers.org.uk](http://www.tomorrowsengineers.org.uk)

Siop un stop ar gyfer gwbyodaeth ac ysbrydoliaeth mewn perthynas â gyrfaeodd peirianeg, yn cynnwys astudiaethau achos, mapiau llwybrau, adnoddau gyrfaeodd, cwisys a dolenni defnyddiol.

[www.tomorrowsengineers.org.uk/apprenticeships](http://www.tomorrowsengineers.org.uk/apprenticeships)

Prentisiaethau gwag diweddaraf gan y Gwasanaeth Prentisiaethau Cenedlaethol.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth a gwneud cais am brentisiaethau yma:

Os ydych chi'n byw yn yr Alban:  
[www.gyrfacymru.com](http://www.gyrfacymru.com)

Os ydych chi'n byw yng Nghymru:  
[www.getingofar.gov.uk](http://www.getingofar.gov.uk)

Os ydych chi'n byw yn Lloegr:  
[www.myworldofwork.co.uk/getting-job/apprenticeships](http://www.myworldofwork.co.uk/getting-job/apprenticeships)

Os ydych chi'n byw yng Ngogledd Iwerddon:  
[www.nidirect.gov.uk/campaigns/apprenticeships](http://www.nidirect.gov.uk/campaigns/apprenticeships)

Archwilio'ch opsiynau gyrfya yn y dyfodol:  
[www.nationalcareersservice.direct.gov.uk](http://www.nationalcareersservice.direct.gov.uk)

Chwilio am gyrsiau ôl-16:  
[www.ucasprogress.com/search](http://www.ucasprogress.com/search)



Colegau Technegol Prifysgol (UTC):  
[www.utcolleges.org](http://www.utcolleges.org)

Studio Schools:  
[www.studioschoolstrust.org](http://www.studioschoolstrust.org)

Colegau Addysg Bellach (AB):  
[www.hotcourses.com](http://www.hotcourses.com)

Dewisiadau heblaw'r Brifysgol:  
[www.notgoingtouni.com](http://www.notgoingtouni.com)

Prifysgolion:  
[www.ucas.com](http://www.ucas.com)  
[www.unistats.com](http://www.unistats.com)  
[www.university.which.co.uk](http://www.university.which.co.uk)  
[www.tomorrowsengineers.org.uk/university](http://www.tomorrowsengineers.org.uk/university)

Mwy am beirianwyr a thechnegwyr proffesiynol a chofrestru:  
[www.engc.org.uk](http://www.engc.org.uk)  
[www.engtechnow.com](http://www.engtechnow.com)


## Cyflogwr Peirianeg

"Mae'r Post Brenhinol yn trafod tua 58 miliwn o eitemau post bob dydd. Mae cael yr eitemau hynny i'ch drws yn ben tost mawr ac mae angen defnyddio technoleg ddatblygedig i gwblhau'r dasg heriol a chymhleth hon. Mae Technegwyr Peirianeg yn hollbwysig i'r broses hon."

**James Baker MSc CEng FIET**, Pennaeth Cynnal a Chadw Peiriannyddol, Post Brenhinol



Camu i fyd  
peirianeg...



Paratowyd 'Llwybrau galwedigaethol a phrentisiaeth i beirianeg' gan EngineeringUK, Sefydliad y Peirianwyr Sifil, y Sefydliad Peirianeg a Thechnoleg a Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol, gyda chyngor gan y Cyngor Peirianeg a'r Gwasanaeth Prentisiaethau Cenedlaethol.

Mae'r sefydliadau hyn yn cydweithio (gyda chymorth Academi Frenhinol Peirianeg) i ddatblygu deunyddiau gyfaeodd peirianeg ar gyfer y rhaglen Tomorrow's Engineers, sydd â'r nod o ysbrydoli pobl ifanc i ystyried gyfaeodd mewn peirianeg.